**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 17 Gorffennaf 2018**

**Presennol:** Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Dim

**2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.**

**3. Cofnodion cyfarfod 19 o Fehefin 2018**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Sharon Parry, eilio Cyng. William Victor Owen.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Cae Chwarae - Roedd mwy o fylchau wedi ymddangos rhwng y teils rwber er iddynt gael eu llenwi'n ddiweddar ond roedd posibilrwydd mae'r tywydd poeth oedd wedi effeithio ar y 'wet pour' a ddefnyddwyd. Cytunodd Cyng. Dyfed Wlliams i gwrdd â McVenture Playgrounds Ltd i drafod gwaith. Roedd y cwmni i fod i drwsio'r swing hefyd. Byddai'r Clerc yn cysylltu â chontractwr lleol am amcangyfrif ar gyfer paentio'r offer.

2. Gwaith Cynnal – cwblhawyd y gwaith ar waliau cerrig Tre Ifan.

3. Gwaith Cynnal Priffyrdd – Nodwyd fod lon heibio Tyn Main dal heb ei thorri - byddai'r clerc yn gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â hyn.

4. Gweithdy Cynllunio Lle – Roedd y clerc wedi rhestru'r grwpiau a busnesau lleol ac wedi llunio dogfen fapio y gellid ei ddefnyddio i ymgynghori â phreswylwyr.

5. Model Newydd Rheoliadau Sefydlog 2018 – bydd hwn wedi ei gwblhau erbyn y cyfarfod nesaf.

6. Llwybrau – dywedwyd bod GMS wedi dechrau torri'r llwybrau. Roedd Cyng. Dyfed Williams am gerdded rhai ohonynt dros gyfnod yr haf.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

7. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion – Nodwyd bod parcio ar balmantydd wrth y modurdy ar Ffordd Minffordd yn dal i fod yn broblem. Cytuwyd y dylai'r clerc gysylltu gyda IOACC i ofyn iddynt roi sylw i'r mater.

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

**5.1** Penderfyniadau cynllunio

**32C204A Baron Hill, Llanfair yn Neubwll:**
Cais llawn i godi cytiau cwn (gofal dydd yn unig) a cathdy ar gyfer defnydd busnes, gosod carthbwll ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau. - Gwrthodwyd y cais am godi cytiau cwn (gofal dydd), cytunwyd y cais i godi cathdy a gosod carthbwll ar gyfer defnydd busnes.

**32C209 – Ty Capel, Ffordd Caergybi, Caergeiliog.**
Cais llawn i addasu'r fynedfa bresennol i gerddwyr i greu mynediad i gerbydau – cytunwyd. Nodwyd hefyd fod Pwyllgor Rheoli'r Neuadd wedi derbyn gohebiaeth ynglŷn â chodi wal derfyn rhwng y ddau eiddo, hysbyswyd yr aelodau bod eu cyfreithwyr yn delio â hyn.

**5.2** Ceisiadau Cynllunio

**32C205B Gwaelod Bach, Caergeiliog** – Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol ac adeiladu annedd newydd yn ei le yngyd a mynediad newydd.
– dim gwrthwynebiad

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith
2. Ymgynghoriad Teithio Llesol 2018
3. Cynllun Adfywio Amlwch a Gogledd Ynys Môn
4. Pwyllgor Safonau - Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref/Cymuned - roedd y clerc wedi ymateb i hyn yn nodi bod gan y Cyngor Cymuned ddigon o adnoddau neilltuedig i ariannu hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig a'r clerc.

**7. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 17.7. 2018 Cyfrif Cyfredol £9253.04 Cyfrif Cadw £3,924.03**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

**8.** **Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y clerc (Mai) | £229.39 | GMS INV3869 | £91.20 |
| Gwaith Cynnal (Torri coed) | £120.00 | Gwaith Cynnal – waliau cerrig | £650.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Victor Owen.)**

**9. Cyfrifon 18/19**

**10. Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol**

1. Un Llais Cymru - Hyfforddiant .
2. Cylchlythyr 008/2018 – Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau
3. Cylchlythyr Haf 2018 Comisiynydd Pobl Hyn Cymru
4. Bwletin Un Llais Cymru.

**11. Unrhyw fater arall:**

11.1 Yn dilyn cynnig gan y Cyng. Gordon Owen, cytunwyd yn unfrydol y dylai'r Cyng. William Victor Owen gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Gofalwyr Towyn Trewan.

11.2 Mynegwyd pryder am y nifer o feysydd carafannau a sefydlwyd heb hawl cynllunio o gwmpas yr ardal. Cytunwyd y byddai'r clerc yn darganfod mwy am y meini prawf cynllunio ac ati oedd angen ar eu cyfer.

11.3 Cytunwyd y byddai'r clerc yn ymchwilio i brisiau ar gyfer codi hysbysfwrdd.

**12. Cyfarfod Nesaf – 18 Medi 2018**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………….